# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR RHAGLEN CHRAFFU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD LLUN, 12 MEDI 2016 AM 4.30 PM

**YN BRESENNOL**: Bu M H Jones (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| U C Clay | A C S Colburn | S E Crouch |
| E W Fitzgerald | F M Gordon | T J Hennegan |
| J W Jones | P M Meara | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | C A Holley | P R Hood-Williams |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Wendy Parkin | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): N J Davies, C R Evans, E J King, D J Lewis a/ac G J Tanner

### 56 DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 57 GWAHARDD PLEIDLEISIAU CHWIP A DATGAN CHWIPIAU'R PLEIDIAU.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

### 58 COFNODION:

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 8 Awst 2016 fel cofnod cywir.

### 59 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.

Clywodd y pwyllgor gan Mr Rowe ynglŷn â'r bwriad i graffu ar Dai Amlfeddiannaeth (HMO). Nododd y pwyllgor bryderon Mr Rowe am reoli a rheolaeth Tai Amlfeddiannaeth a'r effaith bresennol ac yn y dyfodol ar gymunedau yn ardal ddwyreiniol Abertawe, megis St. Thomas, lle mae nifer cynyddol o Dai Amlfeddiannaeth oherwydd campws newydd y brifysgol.

Gofynnodd pam nad oes angen i landlordiaid dalu treth y cyngor ar eiddo sy'n cael eu hystyried yn Dai Amlfeddiannaeth. Mynegodd hefyd bryderon am faterion cynllunio.

Cadarnhaodd y cadeirydd y byddai'r pwyllgor yn archwilio'r fath faterion petai'n cytuno i sefydlu Gweithgor Craffu ar Dai Amlfeddiannaeth, fel sy'n arfaethedig. Nododd y cadeirydd y bydd yn ysgrifennu at Mr Rowe i gydnabod ei bryderon a sut gall ymwneud â'r broses o graffu ar y pwnc hwn. Anogwyd Mr Rowe hefyd i anfon unrhyw gwestiynau/sylwadau ychwanegol ynglŷn â'r mater hwn atom, a byddai'r rhain yn cael eu trosglwyddo i'r gweithgor.

## 60 SESIWN HOLI AELOD Y CABINET: AELOD Y CABINET DROS WRTHDLODI A CHYMUNEDAU (Y CYNGHORYDD WILL EVANS).

Rhoddodd y Cynghorydd W Evans anerchiad agoriadol fer am ei bortffolio cabinet cyn derbyn cwestiynau gan y pwyllgor a fu'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Cyllideb, canlyniadau, gweithdrefnau adrodd ac ystadegau Trechu Tlodi yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ac argaeledd tablau cymhariaeth – nodwyd bod Dangosyddion Perfformiad amrywiol ar gyfer Trechu Tlodi wedi'u cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol ac yr adroddir amdanynt i Lywodraeth Cymru bob tri neu chwe mis;
- Strategaeth Trechu Tlodi – cydnabu Aelod y Cabinet yr Ymchwiliad Craffu i hyn. Gyda chanfyddiadau'r ymchwiliad yn cael eu hystyried, nododd mai'r bwriad oedd llunio strategaeth ddiwygiedig ddechrau 2017, gan ystyried darnau perthnasol eraill o waith hefyd – megis yr Asesiad Effaith Integredig sydd wedi cael ei wneud. Gofynnwyd i Aelod y Cabinet gadarnhau statws strategaeth ddiwygiedig ymddangosol a rhannu â'r Panel Craffu i helpu i lywio'r ymchwiliad;
- Roedd Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) wedi cyhoeddi papur am ddatrys tlodi yn y DU. Mae'n ceisio ateb cwestiynau allweddol ynglŷn â'r rhesymau mae tlodi'n parhau a sut gellir ei drechu - roedd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet yn ystyried hyn i helpu i gyfeirio gwelliannau i'r strategaeth leol hefyd;
- Byddai'r rhaglen newydd, Cymunedau am Waith, yn canolbwyntio ar drechu tlodi trwy gyflogaeth gynaliadwy a helpu i ddarparu mentora a chefnogaeth ar gyfer cyflogaeth er mwyn helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith i gynorthwyo â thwf a ffyniant economaidd;
- Pwysigrwydd addysg, ffyniant economaidd a chyflogaeth wrth drechu tlodi – mynegodd y pwyllgor bryder ynglŷn ag adroddiadau am golli swyddi ac anawsterau wrth ddenu swyddi i'r ardal;
- Roedd Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn cynyddu yng Nghymru;
- Roedd y rhaglen Esgyn wedi cael ei pheilota ym Mhenderi trwy Raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac roedd llawer o bobl wedi cael eu hachub o dlodi'n llwyddiannus o ganlyniad;
- Y diffiniad o dlodi a'r meini prawf sy'n diffinio beth yw tlodi – ym marn Aelod y Cabinet, diffyg gallu i ddiwallu anghenion sylfaenol yw tlodi yn ei hanfod;
- Defnyddio'r Safon Isafswm Incwm (SII) – meincnod isafswm anghenion yn seiliedig ar ba nwyddau a gwasanaethau y mae eu hangen, ym marn y cyhoedd, ar gyfer safon byw ddigonol;

- Nifer y rhandiroedd a chynlluniau yn sgîl yr adolygiad gweithrediadol;
- Ystyried materion cydlyniant cymunedol – awgrym y dylai Aelod y Cabinet ystyried adrodd yn rheolaidd am hyn (gan gynnwys digwyddiadau/ystadegau) i'r cyngor neu'r Tîm Craffu er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ac asesu gwaith i gefnogi cydlyniant;
- Effaith tanwariant cyllideb NEETS;
- Codwyd pryder am wybodaeth sy’n nodi bod nifer o bobl yn byw mewn pebyll mewn rhai mannau diarffordd yn Abertawe – gofynnodd Aelod y Cabinet am fwy o wybodaeth am hyn er mwyn ymchwilio ymhellach;
- Cynhwysiad digidol - yr angen am ddarpariaeth arall ar gyfer pobl sy'n byw mewn tlodi neu nad oes ganddynt fynediad i dechnoleg gyfrifiadurol. Bydd hyn yn destun Gweithgor Craffu yn y dyfodol.

Diolchodd y cadeirydd i'r Cyng. Evans am ddod.

**PENDERFYNWYD** y dylai Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan gyfleu manylion y drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

61 **ADRODDIAD YR YMCHWILIAD CRAFFU TERFYNOL: GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL PLANT A PHOBL IFANC (Y CYNGHORYDD MARY JONES, CYNULLYDD).**

Cyflwynodd y Cynullydd, sef y Cynghorydd Mary Jones, yr adroddiad terfynol sy'n deillio o ymchwiliad y Panel Craffu i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r casgliadau a'r argymhellion a ddeilliodd o'r ymchwiliad mewn ymgais i ateb y cwestiwn canlynol:

*Sut gall y cyngor weithio gyda phartneriaid iechyd ac eraill i leihau'r galw am wasanaethau iechyd meddwl arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc?*

Canmolwyd gwaith y panel gan yr aelodau ynghyd â'r gefnogaeth a dderbyniwyd ganddo. Trafododd y pwyllgor nifer o'r materion a godwyd yn yr adroddiad a phwysigrwydd y gwasanaethau hyn.

Nodwyd sut byddai craffu'n gallu monitro newid, gwelliant ac effaith yr argymhellion yn effeithiol, yn seiliedig ar y lefelau perfformiad presennol, yn dilyn camau gweithredu'r Cabinet. Nododd y cynullydd y byddai hi'n pwysleisio i'r Cabinet yr angen am gynllun gweithredu clir a mesuradwy er mwyn helpu i asesu'r effaith a'r gwahaniaeth a wneir.

Awgrymwyd ystyried a ellid dosbarthu'r argymhellion yn fwy effeithiol e.e. gwahanu'r rhai a oedd yn canolbwyntio ar waith yr awdurdod, a'r rhai a oedd yn pwysleisio siarad ag ymarferwyr iechyd/annog camau gweithredu y gallai pobl eraill fod yn gyfrifol amdanynt.

**PENDERFYNWYD** y dylid cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet benderfynu yn ei gylch, gan gynnwys unrhyw newidiadau a wneir gan y cynullydd mewn ymateb i sylwadau'r pwyllgor uchod.

## 62 ADRODDIAD YR YMCHWILIAD CRAFFU TERFYNOL: ADEILADU CYMUNEDAU CYNALIADWY DRWY WEITHREDU YN Y GYMUNED (Y CYNGHORYDD TERRY HENNEGAN, CYNULLYDD).

Cyflwynodd y Cynghorydd Terry Hennegan yr adroddiad terfynol am yr ymchwiliad craffu i Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy trwy Weithredu yn y Gymuned.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r casgliadau a'r argymhellion a ddeilliodd o'r ymchwiliad mewn ymgais i ateb y cwestiwn canlynol:

*Sut gall y cyngor gefnogi preswylwyr i gynnal gwasanaethau yn eu cymunedau eu hunain?*

Diolchodd i'r panel am fynd i'r afael â'r mater hwn ac am y gwaith a wnaed. Canmolodd y gefnogaeth a dderbyniwyd gan y panel wrth gynnal yr ymchwiliad hwn ac, yn benodol, wrth lunio'r adroddiad terfynol. Tynnodd sylw at rai o'r prif ganfyddiadau, nid lleiaf yr hyfforddiant, y gefnogaeth a'r cyngor sy'n hanfodol er mwyn cynnwys y gymuned a throsglwyddo asedau'n llwyddiannus. Trafodwyd hefyd y cymorth ariannol sydd ar gael i grwpiau cymunedol â diddordeb.

**PENDERFYNWYD** cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet am benderfyniad.

## 63 ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL CRAFFU AR BERFFORMIAD - YSGOLION (Y CYNGHORYDD FIONA GORDON, CYNULLYDD).

Adroddodd y Cynghorydd Fiona Gordon, Cynullydd y Panel Perfformiad Ysgolion, y diweddaraf am weithgareddau’r panel, yr ohebiaeth rhwng y panel ac aelodau'r Cabinet, y cynigion a wnaed a'u heffaith.

Tynnodd sylw at ymagwedd y panel at archwilio materion gwella ysgolion, gan gynnwys cynnwys ysgolion yn barhaus. Myfyriodd ar y sesiwn ddiweddar gydag Ysgol Gyfun Cefn Hengoed a fu'n ystyried arfer da a sut caiff hwnnw ei rannu ag eraill. Esboniodd y rhesymeg dros gynnwys ysgolion penodol, a pherthynas gadarnhaol y panel ag ymgynghorwyr herio.

Gofynnodd y pwyllgor a oedd y panel wedi trafod rôl ysgolion a'r defnydd ohonynt gan y gymuned ehangach. Nododd y Cynghorydd Gordon y gallai'r panel gynnwys yr agwedd hon mewn sesiynau yn y dyfodol, yn enwedig oherwydd ei bod hefyd yn rhan o gamau gweithredu i drechu tlodi mewn cymunedau.

Hefyd nododd y Cynghorydd Gordon awgrym i'r panel ystyried y berthynas rhwng ysgolion, prifysgolion ac amgueddfeydd, er enghraifft ynglŷn â digwyddiadau megis Gŵyl Wyddoniaeth Prydain.

Nodwyd y byddai cyfarfod y panel ag Ysgol Gyfun Gellifedw'n cael ei aildrefnu o 19 Hydref 2016 i ddyddiad yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 64 RHAGLEN WAITH CRAFFU 2016/17.

Cyflwynodd y cadeirydd y rhaglen waith a chyfeiriodd at y cais cyhoeddus i ystyried craffu ar Dai Amlfeddiannaeth.

Nododd y cadeirydd hefyd y byddai adroddiadau'r Panel Craffu'n cael eu cyfleu i'r cyngor ar 22 Medi 2016 gan y canslwyd cyfarfod mis Awst y cyngor.

Esboniodd y Cydlynydd Craffu y disgwylid i adroddiad arall am ddatblygu Gerddi'r Castell a chyfleoedd mannau cyhoeddus gael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 20 Hydref 2016. Felly roedd cynghorwyr yn cael eu hysbysu ymlaen llaw am gyfarfod Craffu Cyn Penderfynu rywbryd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 17 Hydref 2016.

**PENDERFYNWYD:**

a) Y dylid derbyn y Rhaglen Waith Craffu fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad;
b) Cymeradwyodd y pwyllgor y cynnig i sefydlu Gweithgor Craffu ar Dai Amlfeddiannaeth (HMO).

## 65 AELODAETH PANELI A GWEITHGORAU CRAFFU.

Cyflwynodd y cadeirydd adroddiad yn amlinellu diwygiadau arfaethedig i aelodaeth y Paneli/Gweithgor Craffu.

Amlinellwyd diwygiad i aelodaeth bresennol y Paneli/Gweithgor Craffu o ran:

- Panel Ymchwiliad Craffu ar gyfer Trechu Tlodi – mae angen ychwanegu'r Cynghorydd D W Cole

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r penodiad uchod.

## 66 LLYTHYRAU CRAFFU.

Adroddodd y cadeirydd am gofnod llythyrau'r Tîm Craffu a chyfeiriodd at yr ohebiaeth ddiweddar rhwng paneli craffu ac Aelodau’r Cabinet.

Nododd y cadeirydd fod ymateb y Cynghorydd J Raynor, Aelod y Cabinet dros Addysg, bellach wedi cael ei dderbyn ac felly byddai'n cael ei gynnwys yn y pecyn agenda ar gyfer cyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu sydd wedi'i drefnu ar gyfer 10 Hydref 2016.

**PENDERFYNWYD** y dylid **NODI** cofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

## 67 ADBORTH O DDIGWYDDIADAU CRAFFU DIWEDDAR.

Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau craffu'n ddiweddar.

68 **DIGWYDDIADAU CRAFFU SYDD AR DDOD.**

Cyfeiriodd y cadeirydd at sesiwn ymwybyddiaeth trechu tlodi arall ar gyfer cynghorwyr craffu sydd wedi'i drefnu ar gyfer 15 Medi 2016 am 4.00pm.

Trefnwyd Grŵp Cynghorwyr Rhanbarthol Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) ar gyfer 27 Medi 2016 am 10.30am yn Sir Benfro.

69 **CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO (ER GWYBODAETH).**

Adroddodd cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu fod cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi cael ei wahodd i gyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y naill at y llall o gynlluniau gwaith a chydlynu perthnasol ac i alluogi trafod materion sy'n ymwneud â rhaglenni gwaith perthnasol.

**PENDERFYNWYD** y dylid **NODI** Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

70 **DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD PWYLLGOR YN Y DYFODOL AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2016/17 (POB UN AM 4.30PM).**

**NODWYD** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd y pwyllgor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017.

71 **DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD NESAF PANELI/GWEITHGORAU.**

Rhoddwyd dyddiad ac amser cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.15 pm

**CADEIRYDD**